



Opsiynau Ariannu Allanol

Offer Chwilio

Mae [Funds Online](#) yn offeryn chwilio i ddod o hyd i'r cyllid sydd ar gael.

Bydd y *Guide to Educational Grants* yn eich helpu chi i ddod o hyd i'r cyllid sydd ar gael. Mae'r canllaw'n cynnwys dros 800 o ffynonellau o **gymorth ariannol anstatudol ar gyfer y sawl sydd mewn addysg**. Mae dau rifyn o'r teitl hwn ar gael fel copïau argraffedig (er gwybodaeth yn unig) yn llyfrgell Llandaf.

Cronfa ddata ar-lein rhad ac am ddim o ysgoloriaethau, grantiau a bwrsariaethau yw [The Scholarship Hub](#) ar gyfer **myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig y DU neu'r UE**. Trwy gofrestrriad sylfaenol, gallwch chwilio a thanysgrifio i gylchlythyr neu hysbysiadau am gyllid newydd sy'n cyd-fynd â'ch proffil. Yn hytrach na dewis 'Prifysgol Metropolitan Caerdydd' fel eich sefydliad wrth chwilio am yr ysgoloriaethau a'r bwrsariaethau sydd ar gael, dewiswch 'Any' i weld yr ysgoloriaethau a'r bwrsariaethau sydd ar gael i fyfyrwyr ledled y DU.

Elusen genedlaethol yw [Turn2Us](#) sy'n darparu **cymorth ymarferol i bobl mewn angen ariannol**. Mae gan eu gwefan [gyfleuster chwilio am grantiau](#) ac arweiniad defnyddiol ar y wybodaeth y gallai fod ei hangen arnoch os ydych chi'n gwneud cais am grant elusennol.

Israddedig ac Ôl-raddedig

[Cronfa Waddol Gymunedol Caerdydd](#) - hyd at £500 ar gyfer unigolion mewn angen.

[Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#) - ymgeiswyr sy'n dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Y dyddiad cau ar gyfer y Brif Ysgoloriaeth i fyfyrwyr sy'n dechrau ym Mis Medi 2022 yw'r 7fed o Ionawr 2022. Mae'r Brif Ysgoloriaeth ar gyfer myfyrwyr israddedig sy'n astudio o leiaf 80 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'n werth £1000 y flwyddyn. Mae'r Ysgoloriaeth Cymhelliant, sy'n ysgoloriaeth ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg, werth hyd at £500 y flwyddyn. Mae ymgeiswyr yn gallu ymgeisio rhwng mis Mehefin a Hydref 2022.

Mae [Taflen Ffeithiau a Chanllawiau Disability Rights UK](#) yn offeryn defnyddiol i **fyfyrwyr anabl** ddod o hyd i gyllid gan ymddiriedolaethau elusennol.

Cymorth ychwanegol yw'r [Lwfans i Fyfyrwyr Anabl \(LFA\)](#) ar ben eich cyllid arall i fyfyrwyr a gellir ei ddefnyddio i dalu am gostau sy'n gysylltiedig ag astudio, megis offer, cymorth anfeddygol, teithio a llungopïo ac argraffu. Mae'r LFA ar gael i **fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig (gan gynnwys astudiaethau Doethurol)**.

[Leverhulme Trade Charities Trust](#) - hyd at £3000 y flwyddyn tuag at gost gradd israddedig, neu hyd at £5000 y flwyddyn tuag at gost gradd ôl-raddedig.

[Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru](#) - yn darparu ffioedd dysgu a chymorth bwrsariaeth i'r rheiny sy'n astudio cyrsiau sy'n gysylltiedig ag iechyd yng Nghymru.

Mae'r [Student Health Association](#) yn gronfa ychwanegol i'r Lwfans i **Fyfyrrwyr Anabl** (y bydd angen ichi fod wedi gwneud cais amdano'n gyntaf). Rhaid ichi fod mewn **addysg amser llawn** i fod yn gymwys a gallech gael hyd at £500.

Mae [Grantiau'r Snowdon Trust](#) ar gyfer myfyrrwyr sydd â **chostau cysylltiedig ag anabledd** nad yw cyllid statudol yn talu amdanynt. Gallwch gwneud cais am grant i'ch helpu i dalu'r costau ychwanegol hyn. Gall y Snowdon Trust helpu gyda phethau fel dehonglwyd iaith arwyddion a chymorth dynol hanfodol arall, offer cyfrifiadurol â meddalwedd addasol, offer symudedd, llety a addaswyd, neu lety ychwanegol ar gyfer gofalwr 24 awr.

Mae [Wise](#) yn cynnwys gwybodaeth am fwrsariaethau, grantiau ac ysgoloriaethau i **fenywod a merched sy'n dilyn gradd neu yrfa mewn pwnc STEM** (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg).

[Ymddiriedolaeth St Matthias](#) - hyd at £10,000 ar gyfer ymgeiswyr sydd yn, neu sy'n bwriadu, ymwneud â gwaith lles cymdeithasol fel gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr cymunedol, gweithwyr ieuencid, athrawon, goruchwylwyr grwpiau cyn ysgol neu gerddoriaeth/celfyddydau eraill.

Mae Cyllid Myfyrrwyr yn cynnig **cyllid israddedig ac ôl-raddedig i fyfyrrwyr** ([Cymru](#), [Lloegr](#), [yr Alban](#), [Gogledd Iwerddon](#)).

Israddedig

Mae [Bwrsariaeth PPD Heddlu De Cymru](#) yn cynnig hyd at £4,000 er mwyn talu am y broses cyn gwneud cais, astudio ym mlynnyddoedd 1-3 ar gwrs Gradd Plismona Proffesiynol mewn un o'r Prifysgolion a enwir o fewn y Cylch Gorchwyl ac yna'r cais i Heddlu De Cymru. Cofiwch fod ceisiadau am fwrsariaeth yn dechrau cael eu hadolygu o 1 Hydref ymlaen.

Mae [bwrsariaethau/ysgoloriaethau/nawdd israddedig Byddin Prydain](#) ar gyfer y rhai sy'n bodloni'r gofynion cymhwysra swyddog sylfaenol, sydd wedi pasio proses Ddethol Swyddogion y Fyddin, ac sy'n gwneud cais cyn mis Rhagfyr yn ystod blwyddyn olaf eu hastudiaethau.

Ysgoloriaeth ar gyfer **myfyrrwyr BA Dylunio Mewnol yn eu hail flwyddyn o grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)** yw [Ysgoloriaeth Amrywiaeth Claremont – The Scholarship Hub](#), i gefnogi eu taith tuag at yrfa yn y diwydiant dylunio. Mae'r dyfarniad yn cynnwys £1,000 y flwyddyn am 2 flynedd, yn ogystal â lleoliad gwaith â thâl (yn amodol ar gyflawniad academaidd da parhaus), a all ddigwydd dros yr haf rhwng blwyddyn 2 a 3 eich gradd neu fel lleoliad blwyddyn lawn ar gyfer cwrs rhyngosod. Bydd ysgolorion hefyd yn cael mentor (dylunydd ifanc), a all eich cefnogi chi a'ch arwain yn ystod eich astudiaethau a'ch profiad gwaith.

Cynllun yw [Ysgoloriaethau – Crowd Scholar](#) sy'n anelu at gefnogi **myfyrrwyr o gefndiroedd difreintiedig** sydd wedi dangos potensial academaidd rhagorol. Hefyd, ceir **ysgoloriaethau penodol**

ar gyfer y rhai sydd eisiau dilyn gyrfa ym maes cyllid, a'r rhai sy'n hunaniaethu'n berson Du ac sy'n gobeithio astudio'r gyfraith yn y brifysgol.

Mae'r [Helena Kennedy Foundation](#) yn cynnig cymorth ariannol, fel arfer ar ffurf bwrsariaeth o £2,250, ynghyd â chyswllt penodol yn y Sefydliad, mynediad at sesiynau hyfforddi am ddim, cysgodi gwaith, a chyfleoedd gwirfoddoli. Ar gyfer myfyrwyr sy'n bwriadu dechrau eu rhaglen gyntaf mewn Addysg Uwch (h.y. HND, BA, BSc, BEd, Gradd Sylfaen) yn ystod yr hydref yn y flwyddyn y maent yn ymgeisio ynddi ar gyfer sefydliad Addysg Uwch yn y DU. Rhaid i ymgeiswyr fod yn eu blwyddyn olaf mewn sefydliad addysg bellach a ariennir yn gyhoeddus (e.e. ym mlwyddyn olaf cwrs Mynediad / Safon Uwch / BTEC / Scottish Highers mewn coleg AB / chweched dosbarth yn y DU) ar adeg gwneud y cais.

Os ydych wedi bod mewn **gofal Awdurdod Lleol (ALI)**, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer ein bwrsariaeth Ymadawyr Gofal. Fodd bynnag, [fe allech hefyd gael cymorth ariannol gan eich ALI](#). Cysylltwch â'ch cynghorydd personol, gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr achos ALI i gael cyngor.

Mae'r [Savoy Educational Trust](#) yn cynnig grantiau o oddeutu £500 i unigolion sy'n dilyn **cwrs gradd sy'n gysylltiedig â lletygarwch** neu gwrs crefft.

Mae [Gofal Cymdeithasol Cymru](#)'n cynnig bwrsariaethau gwaith cymdeithasol i'r rhai sy'n astudio [gradd neu gwrs gradd Meistr cymeradwy mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru](#). (**BSc (Anrh) Gwaith Cymdeithasol** ym MetC).

Yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw, efallai y gallwch wneud cais am gymorth ariannol ar gyfer yr isod o [wefan GOV.UK yn Lloegr](#), [Cyllid Myfyrwyr Cymru](#), neu [Gyllid Myfyrwyr Gogledd Iwerddon](#):

- Grant Gofal Plant i **fyfyrwyr israddedig sydd â phlant neu oedolyn sy'n dibynnu arnynt yn ariannol yn ystod eu hastudiaethau.**
- Lwfans Dysgu i Rieni ar gyfer **myfyrwyr israddedig sydd â phlant.**
- Grant Oedolion Dibynnol ar gyfer **myfyrwyr israddedig sydd ag oedolyn sy'n dibynnu arnynt yn ariannol.**

Ôl-raddedig

Ariannwch eich **Hyfforddiant Athrawon** gyda [Get Into Teaching](#)

Grantiau Llywodraeth Cymru yw'r [cymhellion Addysg Gychwynnol Athrawon ar gyfer pynciau â blaenoriaeth](#), sydd ar gael i fyfyrwyr cymwys sy'n ymgymryd â **rhaglen AGA ôl-raddedig yng Nghymru sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC)**.

Mae [Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen](#) yn cynnig grantiau i **ddinasyddion o Gymru** sy'n astudio gradd Meistr neu Ddoethuriaeth ac yn darparu hyd at £5,000 ar gyfer talu ffioedd dysgu.

Gall [Benthyciad Meistr Ôl-raddedig](#) helpu gyda ffioedd cwrs a chostau byw.

[Postgraduate search](#) am ysgoloriaeth i ddarganfod benthyciadau, grantiau, ysgoloriaethau a bwrsariaethau sydd ar gael i fyfyrwyr ôl-raddedig.

Chwiliwch am gyllid ôl-raddedig drwy [Prospects](#).

Mae'r [Sir Richard Stapley Educational Trust](#) yn cynnig **cyllid ôl-raddedig** ar gyfer gradd Ddoethurol neu Feistr mewn unrhyw bwnc, neu ar gyfer Tystysgrif Ôl-raddedig neu Ddiploma Ôl-raddedig mewn unrhyw bwnc. Mae'r grantiau fel arfer rhwng £500 a £1,300 o ran gwerth.

Crëwyd [Ysgoloriaethau Meistr Snowdon](#) i nodi a chyflymu taith **unigolion anabl talentog** drwy addysg uwch. Os ydych chi'n credu bod gennych y gallu i fod yn arweinydd yn eich maes, gallwch wneud cais am hyd at £30,000 tuag at eich ffioedd Meistr a'ch costau byw wrth astudio.

Ffynonellau:

<https://www.thecompleteuniversityguide.co.uk/student-advice/finance/university-bursaries-and-scholarships>

<https://www.savesthestudent.org/student-finance/student-bursary-scholarship-sources.html>

<https://www.prospects.ac.uk/postgraduate-study/funding-postgraduate-study/scholarships-and-bursaries>

[The Scholarship Hub](#)